# Y Pwyllgor Menter a Dysgu


## EL(3) 27-09 (p1) : 2 Rhagfyr 2009

### Gweithredu'r Strategaeth Gweithgynhyrchu

### Tystiolaeth Ysgrifenedig


Mae diwydiant gweithgynhyrchu'r DU wedi bod o dan bwysau o ganlyniad i gystadleuaeth ers rhai blynyddoedd. Mae hynny'n arbennig o wir yng Nghymru. Fodd bynnag, er bod nifer y rhai sy'n cael eu cyflogi yn y sector yng Nghymru wedi gostwng dros y 10 mlynedd diwethaf, mae cyfran yr holl swyddi yng Nghymru sy'n perthyn i'r diwydiant gweithgynhyrchu yn dal i fod llawer uwch na chyfartaledd y DU, ac mae gwerth ychwanegol crynswth (GYC) fesul swydd gweithlu yn dal i ragori ar gyfartaledd economi Cymru.

**Ffigur 1: Cyfran y swyddi sy'n perthyn i'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru a Phrydain Fawr 1998-2008**




Ffynhonnell: Ystadegau Economaidd Tymor Byr (STES), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

**Ffigur 2: GYC fesul swydd gweithlu yn ôl sector, Cymru o'i gymharu â'r DU (DU=100) 1997-2007**




Ffynhonnell: BIS 2009, Perfformiad Economaidd Rhanbarthol

Mae gweithgynhyrchu yn flaenoriaeth i Gymru, a bydd yn parhau felly yn y dyfodol agos. Mae'r diwydiant gweithgynhyrchu yn newid. Yn ôl y diffiniad presennol o weithgynhyrchu, mae'r diwydiant yn cynnwys nid yn unig y prosesau cynhyrchu, ond y cylch cyfan o weithgarwch sy'n cychwyn o'r camau Ymchwil a Datblygu, i'r dylunio, y logisteg a'r gwasanaeth, i reoli ar ddiwedd oes. Yn yr un modd, mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar dechnolegau a phrosesau newydd, yn hytrach na'r sectorau traddodiadol - fel carbon isel, biotechnoleg, cyfansoddion. Mae Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Llywodraeth y DU yn gosod pwyslais arbennig ar y "technolegau galluogi" hyn a rhaid inni fod yn barod i wynebu'r heriau, a manteisio ar y cyfleoedd, y maent yn eu cyflwyno.

O ganlyniad, ym mis Ionawr 2004 cyfarfu'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar y pryd â chynrychiolwyr undebau llafur sector gweithgynhyrchu Cymru i edrych ar yr heriau sy'n wynebu'r sector, ac ymchwilio i weld a fyddai'n bosibl i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ei hasiantaethau, a'r sector gweithgynhyrchu, gydweithio'n fwy effeithiol â'i gilydd.

Yn y cyfarfod hwnnw, cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei sefydlu, â chyfrifoldeb am:
- Ystyried a chadarnhau beth yw'r materion allweddol sy'n dylanwadu ar y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru.
- Sefydlu beth y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei wneud i 'fireinio'r' cymorth y mae'n ei roi i'r sector.
- Gwneud argymhellion i'r Gweinidog, ac i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ei dro, ynghylch y ffordd ymlaen.

Ar ôl derbyn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, cyhoeddodd y Gweinidog, ym mis Hydref 2005, ei fod yn gefnogol i greu Fforwm Gweithgynhyrchu i Gymru.

Ym mis Tachwedd 2006, cyhoeddodd y Gweinidog sefydlu Fforwm Gweithgynhyrchu i Gymru. Cafodd y Fforwm ei sefydlu fel corff anghorfforaethol, a'i gostau amrywiol yn cael eu talu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd y Fforwm yn cynnwys cynrychiolaeth eang o aelodau a gafodd eu gwahodd o'r diwydiant, undebau llafur, cyrff cynrychioliadol, fforymau sector, cynghorau sgiliau sector a'r adrannau a adwaenir (erbyn hyn) fel yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau a'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Cytunodd Roger Evans (Cyfarwyddwr Safle, Schaeffler UK Ltd) i gadeirio'r Fforwm a chytunodd Clive Davenport (Rheolwr Gyfarwyddwr, LNC) i fod yn ddirprwy.

Cyfarfu'r Fforwm am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2007, gan dderbyn fel cylch gorchwyl y dylai:
- Ddatblygu, gweithredu a pharhau i adolygu strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru sy'n mynd i'r afael â'r materion sydd o bwys i'r sector yn gyffredinol.
- Cynorthwyo i gael yr elw gorau posibl ar fuddsoddiad y sector cyhoeddus wrth ddarparu cymorth i'r sector gweithgynhyrchu.
- Hyrwyddo strategaethau sector manwl wedi'u datblygu gan y fforymau sector sy'n cynrychioli is-sectorau gweithgynhyrchu â blaenoriaeth yng Nghymru a chynnig cymorth, fel sy'n briodol, i weithredu'r strategaeth hynny.

Roedd y cylch gorchwyl yn nodi'n glir mai'r Fforwm, fel y corff sy'n cynrychioli pawb sydd â diddordeb sylfaenol yn nyfodol Gweithgynhyrchu yng Nghymru, sydd yn y sefyllfa orau i bennu beth sydd angen ei wneud i gefnogi'r sector i fynd ymlaen.

Sefydlodd y Fforwm Grŵp Llywio lefel uchel a oedd, drwy gyfrwng pum is-grŵp yn datblygu syniadau yn gysylltiedig â'r themâu allweddol canlynol: Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol, Gweithgynhyrchu sy'n Ychwanegu Gwerth Sylweddol, Sgiliau, Gwella Delwedd y Sector a Chefnogi Busnesau Bach. Yn gyffredinol, mae'r Fforwm yn credu bod dirfawr angen i gwmnïau gweithgynhyrchu symud y tu hwnt i strategaethau goroesi sy'n dibynnu ar leihau costau (ee gweithgynhyrchu darbodus) ac y dylent, yn hytrach, ymrwymo i ddod o hyd i gyfleoedd busnes â gwerth uwch a fydd, yn eu tro, yn gorfodi dulliau newydd o fynd i'r afael ag arweiniad, rheoli gwybodaeth, moeseg gorfforaethol a datblygu sgiliau. Mae'n allweddol i'r sector nodi bod angen iddo wella ei ddelwedd, ar adeg o gyfyngiadau parhaus, er mwyn denu'r unigolion talentog sydd eu hangen arno i ddatblygu a gweithredu dulliau strategol newydd yn effeithiol.

Yn hwyr yn 2007 ac yn gynnar yn 2008, canolbwyntiodd y Fforwm ar ddatblygu Strategaeth Weithgynhyrchu ddrafft i Gymru. Cyfrannodd yr is-grwpiau, a oedd wedi eu tynnu o sbectrwm eang o fuddiannau, gan gynnwys y byd academaidd, yn sylweddol at ddatblygu’r ddogfen hon, a gafodd ei chyflwyno ar ffurf drafft i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ym mis Hydref 2008.

Fodd bynnag, oherwydd y pwysau yn sgil y dirwasgiad yn hwyr yn 2008, a'r ansicrwydd a oedd yn nodweddiadol o hanner cyntaf 2009, bu’n rhaid cymryd rhan mewn trafodaethau mwy uniongyrchol yn gysylltiedig â chreu mesurau i helpu cwmnïau i oroesi yn y tymor byr, yn hytrach na bwrw ati i bennu manylion terfynol y ddogfen hon. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'r Fforwm, drwy gyfrwng ei Gadeirydd, yn cymryd rhan yn yr Uwchgynadleddau Economaidd, a chyfrannu'n helaeth at y ffordd newydd o feddwl, gan gynnwys yng nghyd-destun datblygu'r fenter newydd, ProAct.

Yn fwy diweddar, wrth i'r sefyllfa economaidd ddechrau sefydlogi, mae'r trafodaethau ynghylch y strategaeth ar gyfer y tymor hwy wedi ailddechrau. Cyfarfu'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth â Chadeirydd y Fforwm ym mis Mehefin 2009. Cafodd rôl bwysig y Fforwm o safbwynt arwain y strategaeth ei gadarnhau yn y cyfarfod hwnnw, ac ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel partner allweddol yn y Fforwm, i barhau i gefnogi ei waith i gwblhau a gweithredu'r Strategaeth ddrafft. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r dirwasgiad, mae amodau masnachu newydd yn ein hwynebu, yn arbennig yng nghyd-destun y credyd sydd ar gael, nad oeddynt yn bodoli pan wnaeth y Fforwm fabwysiadu ei ddull strategol gwreiddiol o feddwl. Gofynnwyd i'r Fforwm, felly, ailwampio ei ddogfen ddrafft, gan ystyried yr amgylchiadau newydd hyn.

Cafodd y cynnydd cynnar rhagorol a wnaed gan y Fforwm wrth ddatblygu ei strategaeth ddrafft ei sicrhau, yn fwy na heb, diolch i ymrwymiad a gwaith ystod eang o unigolion a oedd yn hapus i roi eu hamser. Fodd bynnag, mae'r dirwasgiad wedi rhoi pwysau newydd ar yr unigolion allweddol hynny sy'n golygu, er gwaethaf y ffaith eu bod yn dal yn frwdfrydig i wneud y gwaith, y gall erbyn hyn fod yn anodd i rai ohonynt gyfrannu i'r un graddau. O ganlyniad, penderfynwyd darparu nawdd i'r Fforwm, sy'n werth £50,000 y flwyddyn am gyfnod o ddwy flynedd, er mwyn galluogi iddo gael adnoddau i yrru ei gynlluniau yn ei blaenau.

Erbyn hyn, disgwylir y bydd y Fforwm yn cwblhau ei strategaeth erbyn mis Mawrth 2010. Bydd yn pennu manylion terfynol y ddogfen ar yr union adeg y bydd fy Adran yn cynnal adolygiad o'r polisi a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a fydd yn sefydlu dull newydd o ddatblygu economaidd, a bydd angen sicrhau bod y gweithgareddau hynny yn cyd-fynd â’i gilydd. Bydd gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus yn

dibynnu'n helaeth ar ymrwymiad parhaus a dylanwad cadarnhaol o du'r holl randdeiliaid sy'n rhan o'r Fforwm Gweithgynhyrchu.